NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Cataractau: tab gwybodaeth i'r cyhoedd

24 Hydref 2017

## Cataractau: y gofal y dylech ei ddisgwyl

Mae cataractau yn broblem llygad cyffredin lle mae'r lens yn eich llygad yn mynd yn gymylog. Maent yn achosi golwg aneglur, llaith a cholled golwg. Gallwch gael cataractau yn un o'ch llygaid neu'r ddau ac maent fel arfer yn digwydd fel rhan o fynd yn hŷn. Mewn llawdriniaeth cataract, caiff lens artiffisial ei roi yn lle'r lens gymylog. Y math hwn o lawdriniaeth yw'r driniaeth fwyaf cyffredin a wneir yn y GIG ac mae'n ddiogel ac yn gweithio'n dda iawn. Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â chataractau drwy sicrhau'r canlynol:

- caiff pobl â chataractau eu cyfeirio at glinig y llygaid cyn gynted ag y bydd yn effeithio ar eu bywyd bob dydd
- bod pobl yn cael gwybodaeth well am gataractau a sut y gellir eu trin, fel eu bod yn deall sut y gallai'r opsiynau gwahanol effeithio ar eu golwg
- caiff y ddau lygad eu trin, os bydd angen
- bod ysbytai yn lleihau'r perygl o gymhlethdodau neu gamgymeriadau yn ystod llawdriniaeth
- os bydd unrhyw gymhlethdodau ar ôl y llawdriniaeth, gellir delio â'r rhain yn gyflym gan wasanaethau arbenigol.

## Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi sy'n cynnwys risg a buddiannau llawdriniaeth i chi, a siarad â chi am eich opsiynau. Dylent wrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth sydd bwysicaf i chi – faint mae eich lefel gyfredol o olwg yn effeithio ar ansawdd eich bywyd?
- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i gael llawdriniaeth cataract sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dwedwch hynny wrth eich gweithiwr iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

Darllenwch newyddion NICE i ddysgu sut y bydd y canllaw hwn o gymorth.

Dilynwch ni ar Twitter  a Facebook.

**Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Mae gan NHS Choices ragor o wybodaeth am gataractau.

Dewch o hyd i'ch Gwarchod Iechyd lleol agosaf.

Gall y sefydliadau isod hefyd roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB), 0303 123 9999
- Eye Health UK, 0845 128 5007
- Look after your eyes (gwybodaeth i'r cyhoedd gan Goleg Brenhinol yr Optometryddion)
- Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington
- SeeAbility, 01372 755 000

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae cataractau wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-2707-4

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights 